**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C21/0493/09/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **17/05/2021** |
| **Math y Cais:** | **Diwygio a dileu amodau** |
| **Cymuned:** | **Tywyn** |
| **Ward:** | **Tywyn** |
| **Bwriad:** | **Diwygio a dileu amodau ar ganiatâd cynllunio C15/0662/09/LL** |
| **Lleoliad:** | **Pv Solar Park, Morfa Camp Sandilands, Tywyn, LL36 9BH** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais yw hwn i ddiwygio a dileu amodau ar ganiatâd cynllunio C15/0662/09/LL. Mae'r bwriad yn ymwneud yn bennaf gyda diwygio'r strategaeth lliniaru ehedydd a gytunwyd o dan amod 14 o ganiatâd C15/0662/09/LL. Roedd yr hyn a gytunwyd fel rhan o amod 14 yn clustnodi cae i'r gogledd o'r safle solar ar gyfer ehedydd ond fel rhan o'r cais dan sylw mae'r datblygwr am wella amodau o fewn y safle solar er budd ehedydd yn hytrach na defnyddio'r cae gogleddol. I gefnogi'r bwriad yma cyflwynwyd fel rhan o'r cais Adroddiad Monitro Ehedydd a Chynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg. Mae'r datblygwr felly am ddiwygio amod 14 i amnewid y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg a gytunwyd arno yn flaenorol gyda Chynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg ddiwygiedig ac i weithredu'r strategaeth lliniaru gynhwysir yn yr Adroddiad Monitro Ehedydd. I adlewyrchu hyn gofynnir am ddiwygio amod 2 ar y cynllun gosodiad safle. Bwriedir hefyd fel rhan o'r cais ddiwygio amodau eraill ar ganiatâd C15/0662/09/LL i adlewyrchu'r ceisiadau cynllunio mwy diweddar ar y safle ac i ddiweddaru neu dynnu amodau oedd yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth cyn cychwyn gwaith ac sydd bellach ddim yn berthnasol.

1.2 Gorwedd y safle yng nghefn gwlad ac mae oddi fewn i Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Dysynni. Mae'r safle yn ffurfio rhan o hen wersyll awyrlu Morfa Camp a cheir clwstwr o adeiladau yn gysylltiedig gyda'r gwersyll yma i'r gorllewin o'r safle. I'r gogledd, de a dwyrain mae caeau. Ceir mynediad i'r safle oddi ar Ffordd Sandilands sydd yn ffordd ddosbarth 3. Gorwedd y safle oddi fewn i barth llifogydd C1 ar y mapiau cyngor datblygu yn gysylltiedig gyda Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Mae oddi fewn i barth 3 ar y mapiau llifogydd ar gyfer cynllunio.

1.3 Cyflwynir y cais i Bwyllgor am ei fod yn ymwneud gyda safle dros 0.5 hectar.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

TRA 4 – Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 5 – Datblygu cynaliadwy

PS 6 - Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd

PCYFF 1 – Ffiniau datblygu

PCYFF 2 – Meini prawf datblygu

PCYFF 3 – Dylunio a siapio lle

PCYFF 4 – Dylunio a thirweddu

PS 7 – Technoleg adnewyddadwy

ADN 2 – Ynni PV Solar

PS 19 – Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol

AMG 5 – Cadwraeth bioamrywiaeth leol

PS 20 – Diogelu a lle bo'n berthnasol wella asedau treftadaeth

AT 1 – Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021.

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dyluniad

Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad a pherygl o lifogydd

3. **Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C15/0662/09/LL - Gosod paneli solar PV (3.6 MW) i gynnwys adeiladau atodol, tirlunio a mynedfa i'r safle - Caniatáu gydag amodau - 28 Hydref 2015

3.2 C15/1368/09/AC - Rhyddhau yr amodau canlynol ar gyfer datblygiad paneli solar a ganiatawyd ar y 28 Hydref 2015 dan gyfeirnod C15/0662/09/LL : 5 Gorffeniad allanol, 6 Gorffeniad paneli solar, 7 Gorffeniad ffensys a polion camera, 8 Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylchedd, 9 Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth ac Asesiad Risg Bioddiogelwch, 10 Cynllun Rheoli Llif Traffig, 11 Rhaglen waith archeolegol, 12 Ceblau, 13 Goleuo, 14 Manylion tirlunio a phlannu, 16 Diwygio lleoliad paneli er osgoi pibelli dwr, 17 Datganiad dull ar gyfer amddiffyn pibelli dwr - Caniatáu 12 Chwefror 2016

3.3 C16/0198/09/LL - Cais i ddiwygio amod 4 ar ganiatâd cynllunio cyfeirnod. C15/0662/09/LL er mwyn ymestyn cyfnod gweithredu o 25 mlynedd i 35 mlynedd - Caniatáu 15 Ebrill 2016

3.4 C16/0853/09/DA - Cais am ddiwygiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio C15/0662/09/LL i gynnwys diwygiadau i leoliad a gorffeniad adeiladau a chyfarpar cysylltiol, newid lleoliad ffens derfyn, giât newydd a lleoli cynhwysydd storio - Caniatáu rhan a gwrthod rhan 30 Medi 2016. Y rhan gafodd ei wrthod oedd gosod y cynhwysydd storio ar y safle yn barhaol

3.5 C16/1608/09/LL – Cais ôl-weithredol i gadw cynhwysydd storio ar gyfer offer yn gysylltiedig ar datblygiad solar – Caniatáu 8 Chwefror 2017.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn. |
| Uned Drafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a dymunaf ddatgan na fwriadaf roi argymhelliad gan y tybir na fuasai’r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffordd, neu ffordd arfaethedig. |
| Dŵr Cymru: | Cyfeiriwn at eich ymgynghoriad cynllunio ynghylch y safle uchod, ac fe allwn ddarparu'r sylwadau a ganlyn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Ymgynghorwyd â Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar y cais cynllunio gwreiddiol a nodwyd yn yr ymateb (Cyf: PLA0014674) nad oedd unrhyw wrthwynebiad gyda'r amodau a argymhellwyd mewn perthynas â'r ddwy brif bibell strategol sy'n croesi'r safle. Wedi hynny, ar ôl cymeradwyo caniatâd cynllunio C15/0662/09/LL, bu i ni gydnabod ein bod wedi derbyn ymgynghoriad ar gais i ryddhau amodau 16 ac 17 mewn perthynas â'r brif bibell (Cyf: C15/1368/09/AC) ac, yn yr ymateb dyddiedig 25 Ionawr 2016, nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r manylion a ddangoswyd ar y ‘*Foul sewerage pipe location with offsets’* (Darlun Rhif 1137/18).<br><br>Yn unol â hynny, fel rhan o'r ymgynghoriad diweddaraf hwn (Cyf: C21/0493/09/AC) i wyro amod 14 ac amodau eraill gan gynnwys 16 ac 17 i adlewyrchu'r manylion sydd wedi'u cymeradwyo hyd yma, rydym yn cydnabod derbyn 'Cynllun Tirlunio' (Darlun Rhif 1137/29) sy'n cyd-fynd â'r *'offsets'* i leoliad y bibell ac mewn egwyddor nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad cyhyd ag y cydymffurfir â'r cynlluniau cymeradwy hyn.<br><br>Mae ein hymateb yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan eich cais. Petai'r cais yn newid yn ystod y broses ymgeisio, gofynnwn yn garedig eich bod yn ail-ymgynghori â ni ac rydym yn cadw'r hawl i wneud sylwadau newydd. |
| Gwarchod y Cyhoedd: | Heb eu derbyn. |
| Uned Dŵr ac Amgylchedd YGC: | Nid oes gan yr uned sylwadau i’w cynnig o ran draenio tir na risg llifogydd lleol. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r cais, ond mae gennym y |

sylwadau isod:

Tirwedd

O'n dadansoddiad pen-desg, ni allwn ddiystyru y bydd ymylon gogleddol agored y fferm solar yn weladwy o olygfeydd ymgodol o Barc Cenedlaethol Eryri yn y gogledd, ac o olygfeydd agosach o ymyl y dirwedd ddynodedig i'r de-ddwyrain o Broad Water. Os yw eich Awdurdod, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gyda'u gwybodaeth leol o'r safle, yn ystyried y byddai'n fuddiol amgáu ffin ogleddol y safle gydag eithin, yna dylid addasu cynllun tirwedd 1337/29 yn unol â hynny.

Ecoleg

Rydym yn argymell, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, eich bod yn ceisio cyngor gan ecolegydd eich Awdurdod yn ymwneud â'r mesurau lliniaru Ehedydd arfaethedig, ac unrhyw ystyriaethau Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol.

Uned Bioamrywiaeth:

**Sylwadau 22 Medi 2021**

Mae'r cynnig yn gais i amrywio neu waredu amodau 1-17 cais C15/0662/09/LL.

Yr amodau sy'n berthnasol i fioamrywiaeth:

Amod cynllunio 9 caniatâd cynllunio C15/0662/09/LL a benderfynwyd ar 19 Hydref 2015

Amod cynllunio 14 caniatâd cynllunio C15/0662/09/LL a benderfynwyd ar 19 Hydref 2015

I fodloni amodau C15/0662/09/LL, bu i'r ymgeisydd ddarparu Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol a gynhyrchwyd gan Corylus dyddiedig Rhagfyr 2015. Yn y cynllun hwn bydd cae y tu allan i'r trefniant solar yn cael ei ddarparu ar gyfer ehedydd sy'n magu a bydd yn cael ei reoli fel dôl gwair. Gweler y ddelwedd isod. Cytunwyd ar y cynllun hwn fel rhan o'r datblygiad. Yn y cynllun hwn mae'n nodi er bod y fferm solar yn weithredol, bydd y cae i'r gogledd yn cael ei reoli fel dôl gwair ar gyfer yr ehedydd.

Ar gyfer y cais presennol C21/0493/09/AC i ryddhau'r amodau, mae'r ymgeisydd wedi darparu cynllun ehedydd: *Morfa Solar Farm, Skylark Monitoring*, Cynhyrchwyd gan Corylus Ltd. dyddiedig 9 Mawrth 2021.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei wneud i safon dda. Mae'n cynnwys gwaith arolygu a wnaed ym mis Mai a mis Mehefin 2020, oedd yn medru adnabod 6 tiriogaeth magu ehedydd, dwy yn y ddôl ehedydd, tri yn y trefniant solar ac un y tu allan i'r safle. Mae'r adroddiad yn

nodi bod y ddôl ehedydd wedi cael ei thorri rhwng 3 a 17 Mehefin 2020; nid yw hwn yn gyfnod addas i dorri'r ddôl gan bod hynny yng nghanol y tymor nythu ehedydd (Ebrill i Awst yn gynhwysol). Mae'r adroddiad yn casglu bod angen mesurau rheoli yn y trefniant solar i wella'r safle ar gyfer ehedydd sy'n magu, megis ychwanegu blodau dôl wyllt, e.e. Cribell felen (*Rhinanthus minor*), a thorri ar ddiwedd mis Awst.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell yr hyn a ganlyn, ac yr wyf yn cytuno â hyn: "*To prevent any breach of the Wildlife and Countryside Act. (1981), disturbance and/or injury/ destruction of nesting birds and their nest and to maintain a sward suitable for skylark breeding habitat, it is proposed that a cut is undertaken in mid to late March, in late August-ideally early September*"

Rhoddodd Cyngor Gwynedd ganiatâd cynllunio ar 28.10.2015 dan gyfeirnod C15/0662/09/LL. Cymeradwywyd Cynllun Rheoli (LEMP) a oedd i gael ei weithredu'n llawn drwy gydol oes y datblygiad dan amod 14 y cais hwnnw. Yn y LEMP, nodwyd y byddai'r mesurau rheoli glaswelltir a ganlyn yn digwydd yn ystod y cyfnod gweithredu:

• Trefn pori defaid;

• Cae i'r gogledd i gael ei reoli fel Dôl Gwair i'r ehedydd gyda chnwd blynyddol o wair;

• Adolygiad pob tair blynedd o'r llystyfiant ar y ffin drwy gydol oes y trefniant PV.

Cynllun Tirwedd - derbyniwyd 17 Mai 2021. Rwyf yn gwrthwynebu'r cynllun tirwedd hwn. Argymhellaf bod yr ymgeisydd yn addasu'r cynllun i gynnwys y ddôl ehedydd.

Ymwelais â'r safle ar 4 Gorffennaf 2017; roedd yn ddiwrnod heulog braf, ond roeddwn yn siomedig o weld nad oedd dôl gwair i'r gogledd o'r paneli solar fel y dengys ar y cynlluniau (LEMP) ar gyfer caniatâd cynllunio C15/0662/09/LL. Roedd y cae wedi cael ei dorri'n ddiweddar, yn groes i'r cynllun rheoli a gytunwyd ar gyfer y safle. Nid oedd unrhyw dda byw yn pori yn yr ardal yn ystod fy ymweliad. Atodaf ddau ffotograff o'r ardal a ddylai fod yn ddôl gwair ar gyfer yr ehedydd. Ffotograffau a dynnwyd ar 4 Gorffennaf 2017 - yn dangos bod y ddôl wedi cael ei thorri

Mae hyn yn torri amod cynllunio ar gyfer rheoli bioamrywiaeth y datblygiad. Dylid rheoli'r ardal ar gyfer dôl gwair i'r ehedydd fel dôl traddodiadol a dylid eithrio da byw oddi yno rhwng Ebrill a Medi ac ni ddylid torri'r cae hyd ddiwedd mis Awst. Bydd hyn yn caniatáu i'r blodau dyfu a hau had a darparu ffynhonnell o fwyd ar gyfer peillwyr ac adar.

Mae'r cais presennol C21/0493/09/AC i ryddhau amodau yn cynnwys

LEMP wedi'i ddiweddaru (Mawrth 2021): Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol (v5) dyddiedig 10 Mawrth 2021 a gynhyrchwyd gan Corylus Ltd. sy'n ceisio addasu'r strategaeth ehedydd. Rwyf yn gwrthwynebu'r cynnig hwn a'r strategaeth ehedydd wedi'i diweddaru.

Dyletswydd Bioamrywiaeth

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) yn rhoi dyletswydd estynedig ar yr holl gyrff cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth weithredu eu swyddogaethau.

Crynodeb

Rwyf yn siomedig bod yr ymgeisydd wedi cynnig gwaredu mesurau i reoli a gwella bioamrywiaeth. Bydd y cynnig hwn i amrywio neu waredu amodau yn arwain at waredu'r mesurau lliniaru bioamrywiaeth a gytunwyd ac yn arwain at golli bioamrywiaeth yn y safle. Hefyd, gallai'r cynnig arwain at dorri Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 o ran gwarchod adar sy'n nythu. Rwyf yn gwrthwynebu i'r hyn a ganlyn:

- Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol v5

- *Morfa Skylark Monitoring Report ref S_MSF_V4* dyddiedig 09.03.2021

- Cynllun Tirwedd 1137/29

Rwyf yn argymell bod yr holl gynlluniau yn cynnwys y cae i'r gogledd fel dôl ehedydd fel y cytunwyd yn y caniatâd gwreiddiol a'i fod yn cynnwys mesurau i'w rheoli ar gyfer yr ehedydd a bioamrywiaeth.

**Sylwadau 4 Tachwedd 2021**

O dan y Ddeddf Amgylchedd 2016 mae gan Gyngor Gwynedd dyletswydd i warchod a gwella bioamrywiaeth.

Mae’r cais yma i dynnu'r lliniariad o’r caniatâd gwreiddiol. Mae’r cwmni fferm solar yn rhentu'r tir (fferm solar a dôl ehedydd) gan ffermwr yn yr ardal. Nid ydy’r ffermwr yn cadw at y lliniariad i greu dôl ehedydd, felly mae’r ymgeisydd yn ceisio i dynnu'r dôl ehedydd (y lliniariad).

Nid oes yna ddata i dangos faint o ehedydd oedd cyn cafodd y fferm solar ei datblygu. Felly nid ydym yn gallu dweud oes ydy’r niferoedd o ehedydd yn y fferm solar yn llai neu'r un fath.

Nid ydy plannu eithin a helyg yn dda i ehedydd gan eu bod yn nythu mewn llefydd agored.

Mae yn siomedig iawn fod y tirfeddiannwr a ffermwr ddim wedi dilyn y cynllun i warchod ehedydd ac yn fwriadol i ddinistrio cynefin

lle mae ehedydd yn nythu sydd yn anghyfreithlon.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ger y safle a hysbyswyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a `ni dderbyniwyd unrhyw ymateb

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Gan i'r cais hwn ymwneud a diddymu amodau a osodwyd am resymau cynllunio dilys mae'n rhaid edrych os yw'r amodau dan sylw'n berthnasol mwyach dan y canllawiau cenedlaethol mewn perthynas ag amodau cynllunio sydd wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu. Fe restrai'r cylchlythyr chwe phrawf ar gyfer dilysrwydd amodau cynllunio sef:

- Eu bod yn hanfodol.
- Eu bod yn berthnasol i gynllunio.
- Eu bod yn berthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu.
- Y gellir eu gorfodi.
- Eu bod yn fanwl.
- Eu bod yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

Mae'n angenrheidiol ystyried felly os yw'r amodau yn cyd-fynd â'r profion uchod.

5.2 *Amod 1 - Cychwyn y gwaith o fewn 5 mlynedd.* Mae'r datblygiad wedi cychwyn ac wedi cael ei weithredu. Nid yw'r amod yma felly bellach yn hanfodol a gellir ei dynnu.

5.3 *Amod 2 - Angen i'r gwaith gydymffurfio gyda'r cynlluniau.* Mae'r datblygwr am ddiwygio'r amod yma fel bod yr amod yn cyfeirio at y cynlluniau hynny sy'n adlewyrchu'r datblygiad fel y cafodd ei adeiladu yn sgil diwygiadau o gais C15/0662/09/LL. Mae'r newidiadau yma wedi codi yn sgil caniatáu manylion oedd angen o dan amodau a hefyd mewn ceisiadau diweddarach sef ceisiadau C15/1368/09/AC, C16/0853/09/DA a C16/1608/09/LL a'r manylion sydd wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais cyfredol. Ystyrir y byddai'n rhesymol i ddiwygio'r amod i gyfeirio at y cynlluniau perthnasol ac i adlewyrchu'r datblygiad fel yr adeiladwyd.

5.4 *Amod 3 – Angen lleoli'r paneli solar yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd*. Mae'r paneli solar erbyn hyn wedi eu lleoli ar y tir yn unol gyda'r cynlluniau ac felly nid yw'r amod yma yn un hanfodol a gellir cytuno i'w dynnu.

5.5 *Amod 4 - Gorffen defnyddio'r tir at ddibenion cynhyrchu trydan 25 mlynedd o ddyddiad gweithredu cychwynnol y paneli solar neu 6 mis i orffen defnyddio unrhyw baneli solar at ddibenion cynhyrchu trydan yn unol gyda chynllun gwaith a gytunir.* Mae caniatâd cynllunio C16/0198/09/LL yn caniatáu ymestyn y cyfnod cynhyrchu trydan i 35 mlynedd ac felly mae'r datblygwr eisiau diwygio'r amod 4 oedd ar ganiatâd C15/0662/09/AC oedd yn cyfeirio at gyfnod gweithredu o 25 mlynedd a'i amnewid gyda'r amod sydd ar ganiatâd C16/0198/09/LL sydd yn caniatáu i'r safle fod yn weithredol ar gyfer cynhyrchu trydan am 35 mlynedd. Byddai hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y safle ac mae'r hyn a gynigir yn ymddangos yn

rhesymol. Ystyrir y byddai'n briodol i ddiwygio'r amod i gyfeirio at gyfnod o 35 mlynedd fel sydd wedi ei ganiatáu yng nghais C16/0198/09/LL.

5.6 *Amod 5 - Cytuno gorffeniad a lliw allanol yr holl adeiladau a strwythurau gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith mewn cysylltiad â'r caniatâd.* Cytunwyd lliw gwyrdd a bric ar gyfer yr adeiladau a strwythurau yng nghais C15/1368/09/AC. Yn ddiweddarach yng nghais C16/0853/09/DA cytunwyd i newid lliw'r adeilad y newidydd o wyrdd i lwyd ynghyd a chytuno gorffeniadau adeiladau a strwythurau atodol. Ymhellach cytunwyd ar fanylion y cynhwysydd storio yng nghais C16/1608/09/LL. Mae manylion gorffeniadau a lliwiau'r adeiladau a strwythurau wedi cael eu cytuno ac mae'r holl adeiladau a strwythurau wedi cael eu hadeiladu a'u gorffen. Ystyrir felly nad yw'r amod yma bellach yn hanfodol a'i bod yn rhesymol i dynnu amod 5.

5.7 *Amod 6 - Cytuno gorffeniad y fframiau a phaneli solar ynghyd a gorchudd di-llacharedd gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith mewn cysylltiad â'r caniatâd.* Cytunwyd y manylion yma fel rhan o gais C15/1368/09/AC. Mae manylion y paneli solar wedi cael eu cytuno ac maent wedi eu gosod ar y safle gyda'r caniatâd wedi ei weithredu. Ystyrir felly nad yw'r amod yma bellach yn hanfodol a'i bod yn rhesymol i dynnu amod 6.

5.8 *Amod 7 - Cytuno lleoliad a lliw polion camerâu a manylion unrhyw ffensys gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith mewn cysylltiad â'r caniatâd.* Cytunwyd y manylion yma fel rhan o gais C15/1368/09/AC. Mae manylion y polion camerâu a ffensys wedi eu cytuno ac wedi ei weithredu. Ystyrir felly nad yw'r amod yma bellach yn hanfodol a'i bod yn rhesymol i dynnu amod 7.

5.9 *Amod 8 - Cytuno cynllun darparu a gweithredu system reoli dŵr wyneb a chynllun rheolaeth adeiladu amgylcheddol gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith mewn cysylltiad â'r caniatâd.* Cytunwyd y manylion yma fel rhan o gais C15/1368/09/AC. Roedd y manylion yn ymwneud gyda'r cyfnod adeiladu ac nid gyda'r cyfnod gweithredu ac felly gan fod y fferm solar bellach yn weithredol nid yw'r amod yma bellach yn hanfodol a'i bod yn rhesymol i dynnu amod 8.

5.10 *Amod 9 - Cytuno Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth ac Asesiad Risg Bioddiogelwch gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a gweithredu yn unol â'r hyn gytunwyd.* Fel rhan o gais C15/1368/09/AC cytunwyd ar yr Asesiad Risg Bioddiogelwch o dan amod 9. Fodd bynnag, cafodd y Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg ei gytuno o dan amod 14. Mae'r cais felly yn gofyn am dynnu cyfeiriad at y Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg o amod 9 a'i gynnwys fel rhan o amod 14. Bydd materion felly yn ymwneud gyda Chynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg yn cael ei ystyried o dan amod 14. Er bod yr Asesiad Risg Bioddiogelwch wedi cael ei gytuno fel rhan o gais C15/1368/09/AC mae yn cynnwys materion sydd gofyn eu gweithredu yn ystod cyfnod oes y fferm solar ac felly mae'r Asesiad Risg Bioddiogelwch yn parhau yn fater o bwys. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn rhesymol i ddiwygio'r amod i gyfeirio at weithredu'r Asesiad Risg Bioddiogelwch dyddiedig 9 Rhagfyr 2015 trwy gydol oes y datblygiad oni bai y cytunir yn wahanol gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

5.11 *Amod 10 - Cytuno cynllun rheoli llif traffig gwaith gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith mewn cysylltiad â'r caniatâd.* Cytunwyd y manylion yma fel rhan o gais C15/1368/09/AC. Roedd y manylion yn ymwneud gyda'r cyfnod adeiladu ac nid gyda'r cyfnod

gweithredu ac felly gan fod y fferm solar bellach yn weithredol nid yw’r amod yma bellach yn hanfodol a'i bod yn rhesymol i dynnu amod 10.

5.12 *Amod 11 – Cytuno manylion rhaglen o waith archeolegol gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith mewn cysylltiad â’r caniatâd ac yna gweithredu’r bwriad yn unol gyda’r rhaglen archeolegol gytunwyd.* Cytunwyd y rhaglen o waith archeolegol yma fel rhan o gais C15/1368/09/AC. Roedd y manylion yn ymwneud gyda’r gwaith daear dechreuol yn gysylltiedig gydag adeiladu’r fferm solar. Gan fod y fferm solar wedi cael ei weithredu erbyn hyn mae’r gofynion o ran y rhaglen o waith archeolegol wedi cael eu gweithredu ac felly nid yw’r amod yma bellach yn hanfodol ac ei bod yn rhesymol i dynnu amod 11.

5.13 *Amod 12 - Angen gosod unrhyw geblau trydan o’r datblygiad i’r cysylltiad trydan o dan ddaear.* Mae’r holl geblau wedi cael eu gosod o dan ddaear ac felly wedi cydymffurfio gyda’r amod. Gan fod y gwaith o osod y ceblau wedi ei gwblhau nid yw’r amod bellach yn hanfodol ac ystyrir y gellir tynnu amod 12.

5.14 *Amod 13 - Cyflwyno a chytuno manylion system goleuo’r safle gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol.* Fel rhan o gais C15/1368/09/AC nodwyd nad oedd bwriad i osod unrhyw oleuadau fel rhan o’r datblygiad. Mae’r gwaith o ddatblygu’r fferm solar wedi cael ei gwblhau ac nid oes goleuadau wedi eu gosod ar y safle. Fodd bynnag, os y byddai goleuadau yn cael eu gosod ar y safle yn y dyfodol yna nid yw pob math o olau angen caniatâd cynllunio. Gan fod gosod goleuadau yn gallu cael effaith posibl ar fwynderau, gweledol a trigolion lleol, ynghyd ag ar fioamrywiaeth yna ystyrir y byddai’n briodol i ddiwygio’r amod yn hytrach na’i thynnu. Gellir gosod amod sy’n nodi os y bwriedir gosod system oleuo ar safle’r fferm solar fod rhaid cyflwyno a chytuno y manylion hynny gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol. Byddai hyn yn cadw rheolaeth dros unrhyw oleuadau posibl allai gael eu rhoi ar y safle ac ystyrir y byddai amod o’r fath yn rhesymol. Ystyrir felly y gellir diwygio amod 13.

5.15 *Amod 14 - Cyn cychwyn gwaith angen cyflwyno a chytuno gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol gynllun tirlunio a phlannu.* Fel rhan o gais C15/1368/09/AC cyflwynwyd a chytunwyd ar Gynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg ynghyd a chynllun tirweddu. Y prif faterion oedd yn deillio o’r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg a’r cynllun tirweddu oedd bwriad i glustnodi cae i’r gogledd o’r fferm solar fel dôl gwair ar gyfer ehedydd, i blannu eithin a helygen ac i reoli’r tir o fewn y fferm solar ar gyfer pori gan ddefaid. Bwriad y cais presennol yn bennaf yw i ddiwygio’r amod yma gan gyflwyno Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg a chynllun tirweddu sydd yn hepgor y cae gogleddol o fod yn ddôl ar gyfer ehedydd. Fel rhan o’r cais presennol cyflwynwyd Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg, cynllun tirlunio a hefyd Adroddiad Monitro Ehedydd.

5.16 Ym mharagraff 5.2.3 o’r Adroddiad Ecolegol gyflwynwyd ar gais C15/0662/09/LL pan ganiatawyd y fferm solar nodir fod cyrion dwyreiniol y cae amaethyddol yn cynnwys cynefin da ar gyfer ehedydd. Nodir fod ehedydd wedi eu clywed yn canu uwchben y safle ond na ddarganfuwyd nythod ar y safle gyda’r posibilrwydd felly fod yr adar a glywyd yn nythu mewn cynefin gerllaw oedd oddi ar y safle ond fod eu tiriogaeth yn ymestyn i safle’r cais. Ategir hyn yn rhan 6.1 o’r adroddiad. Wrth ymdrin gydag effaith posibl y datblygiad ar ehedydd mae’r adroddiad yn nodi y gallai ehedydd fod yn nythu ar gyrion dwyreiniol y cae amaethyddol wedi ei wella. Yn dilyn adeiladu byddai rheolaeth y glastir (*sward*) yn llai dwys ac y byddai’n debygol y byddai’r holl gynefin yn y cae yn cael ei wella ar gyfer ehedydd a fyddai gyda’r potensial o ardal mwy i’r ehedydd ei feddiannu. Hefyd oherwydd mwy o flodau a hadau blodau gwyllt a gwell

amrywiaeth yn strwythur y glastir mi fyddai o fudd i anifeiliaid di-asgwrn cefn. Byddai'r blodau a'r anifeiliaid di-asgwrn cefn hyn yn ffynhonnell arwyddocaol o ran bwyd i'r ehedydd.

5.17 Gan nad oedd sicrwydd os fyddai'r bwriad yn cael effaith ar gynefin yr ehedydd rhoddwyd amod 9 i gytuno Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth. Fodd bynnag gan fod y cynllun a gyflwynwyd hefyd yn cynnwys y manylion tirlunio cafodd y Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth ei ryddhau yng nghais C15/1368/09/AC o dan amod 14 oedd yn ymwneud gyda thirweddu. Fel rhan o'r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg a dderbyniwyd ar gais C15/1368/09/AC roedd cae i'r gogledd o'r fferm solar i gael ei ddiogelu fel dôl ar gyfer ehedydd. Nid yw'r cae yma erioed wedi cael ei ddarparu ar gyfer ehedydd fel roedd y gofyn yn y Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg.

5.18 Fel rhan o'r cais presennol cyflwynwyd Adroddiad Monitro Ehedydd. Ar gyfer yr adroddiad yma gwnaethpwyd pedwar arolwg ar gyfer ehedydd yn ystod Mai a Mehefin 2020. I bwrpas yr arolygon yma darganfuwyd 6 tiriogaeth ar gyfer ehedydd (3 o fewn y fferm solar, 2 o fewn y cae gogleddol ac 1 ychydig tu allan i'r fferm solar i'r dwyrain). Darganfu'r arolygon yma fod ehedydd yn defnyddio'r cynefin o fewn y fferm solar yn ystod tymor nythu 2020 ac allan o'r 6 tiriogaeth arolygwyd yr unig un oedd gyda thystiolaeth magwraeth wedi ei gadarnhau oedd ardal T4 oedd wedi ei leoli oddi fewn i'r fferm solar ei hun gyda'r gweddill yn diriogaethau tebygol ar gyfer magwraeth. Yn sgil canlyniadau'r arolwg a bod dosbarthiad o ehedydd o fewn safle'r fferm solar ei hun gan gynnwys yr unig diriogaeth magwraeth a gadarnhawyd mae'r datblygwr am wella ardal y fferm solar ei hun er budd ehedydd. Datgan yr Adroddiad Monitro Ehedydd fod y dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno o fewn yr adroddiad yn dangos nad yw ffermydd solar mor anffafriol ar gyfer magu ehedydd ag ystyriwyd yn ystod y broses cynllunio cychwynnol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi fod dwysedd uchel o ehedydd wedi ei ddarganfod yn ystod yr arolygon ac nad yw'r fferm solar wedi dadleoli'r ehedydd fel yr ystyriwyd yn wreiddiol a bod y niferoedd yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Oherwydd hyn argymhellir yn yr Adroddiad Monitro Ehedydd fod safle'r fferm solar ei hun yn cael ei rheoli yn benodol ar gyfer cefnogi ehedydd sy'n magu i'r dyfodol yn hytrach na darparu'r cae gogleddol i'r pwrpas yma.

5.19 Mae'r Adroddiad Monitro Ehedydd felly yn cynnig gwella amodau o fewn y fferm solar i hybu magu gan ehedydd o fewn y fferm solar ei hun. Un o'r argymhellion yw i reoli pryd y byddai'n bosibl torri'r glaswelltir o fewn y fferm solar. Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn argymell osgoi torri rhwng yn gynnar yn Ebrill a diwedd Mai er mae'r tymor magu ehedydd yn rhedeg o Ebrill - Awst gyda'r ehedydd yn gwneud sawl cynnig ar nythu yn ystod y cyfnod yma. Maent hefyd angen llystyfiant gydag uchder rhwng 20 - 50cm ac osgoi gwair dros 60cm. Argymhellir yn yr Adroddiad Monitro Ehedydd felly fod y glaswelltir yn cael ei dorri canol i ddiwedd Mawrth, yn hwyr yn Awst i ddechrau Medi ac un neu ddau arall, yn ddibynnol ar y flwyddyn a faint o wair, i'w wneud yn nhymor yr hydref (dim hwyrach na mis Tachwedd). Os bwriedir rheoli'r glastir drwy droi i bori dylai hyn gael ei wneud gyda stoc isel fel bod glastir twmpathog (*tussocky*) yn cael ei greu a dylai defaid gael eu symud o'r glaswelltir yn gynnar yn Ebrill hyd at ddiwedd Mai gan mai hwn yw'r prif dymor nythu. Argymhellir hefyd wella safle'r fferm solar ar gyfer ehedydd drwy gynyddu'r amrywiaeth o lastir gan annog planhigion sydd yn cynnwys neithdar. Byddai hyn yn cynyddu'r nifer o anifeiliaid di-asgwrn cefn ac yn cynnig adnodd chwilota porthiant ychwanegol i'r ehedydd a'i ifanc. Gellir rhannu i ffwrdd ardaloedd agored o fewn y fferm solar ac o fewn yr ardaloedd yma hadu'r glaswelltir gyda chymysgedd blodau gwyllt i gynyddu'r amrywiaeth o fewn y glaswelltir. Mae'r adroddiad yn argymell cynnwys Cribell Felen (*Yellow-rattle*) gan fod y rhywogaeth yma yn parasiteiddio rhywogaethau gwaith a fyddai'n caniatáu gwanhau'r gwair gan alluogi'r planhigion sy'n blodeuo i ffynnu.

Mae'r adroddiad yn datgan y byddai'r newidiadau yma yn gwella cynefin y fferm solar ar gyfer ehedydd.

5.20 Cyflwynwyd hefyd yn rhan o'r cais Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg (v5) dyddiedig 10 Mawrth 2021. Mae'r Cynllun yma cyfeirio at yr angen i wella'r cynefin o fewn y fferm solar ar gyfer ehedydd yn unol gyda'r argymhellion yn yr Adroddiad Monitro Ehedydd a'r hyn a ddangosir ar y Cynllun Tirweddu 1137/29. Mae hefyd yn nodi fod y plannu eithin a helyg wedi ei wneud ac wrth i hwn aeddfedu byddai ar y cyfan yn edrych ar ôl ei hun ond y bwriedir edrych ar y tyfiant yma bob rhyw 3 blynedd drwy gydol oes y fferm solar i sicrhau fod cynefin gorau posibl yn cael ei greu. Byddai'r arolwg yma yn edrych ar bethau fel bôn docio (*pollarding*) o'r coed helyg, di-siltio ffosydd ar y ffin ac ail blannu fel y galw.

5.21 Gwelir o'r sylwadau fod yr Uned Bioamrywiaeth yn gwrthwynebu'r bwriad ac am i'r cae gogleddol barhau i fod yn fesur lliniaru ar gyfer ehedydd. Pan gafodd y cais gwreiddiol am y fferm solar ei ganiatáu (C15/0662/09/LL) nid oedd yn sicr beth fyddai effaith creu'r fferm solar ar ehedydd. Oherwydd hyn cynigwyd fel rhan o'r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg ar gais rhyddhau amodau C15/1368/09/AC i glustnodi cae i'r gogledd o'r fferm solar ar gyfer creu dôl ehedydd. Fodd bynnag, erbyn hyn mae'n amlwg o'r Adroddiad Monitro Ehedydd a gyflwynwyd yn rhan o'r cais presennol C15/1368/09/AC fod y fferm solar ei hun yn cynnig cynefin ar gyfer ehedydd a bod yr unig ardal magwraeth ehedydd a gadarnhawyd drwy'r Adroddiad Monitro Ehedydd oddi fewn i'r fferm solar ei hun. Yn bresennol nid oes unrhyw gynllun wedi ei gytuno o ran diogelu'r glaswelltir o fewn y fferm solar er budd ehedydd. Ystyrir felly y byddai rhesymol i roi mesurau mewn lle ar gyfer rheoli'r glaswelltir o fewn ardal y fferm solar yn fesur lliniaru digonol o ystyried na chafodd adeiladu'r fferm solar yr effaith negyddol ar ehedydd fel yr ystyriwyd oedd yn bosibl pan oedd y cais gwreiddiol am sefydlu'r fferm solar dan ystyriaeth. Ystyrir felly o roddi amod i gydymffurfio gyda'r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg (v5), yr Adroddiad Monitro Ehedydd a'r Cynllun Tirlunio trwy gydol oes y datblygiad na fyddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar gynefin yr ehedydd a bod y bwriad yn dderbyniol o ran Polisi AMG 5 CDLL.

5.22 *Amod 15 – Yr angen i gyflawni'r plannu yn y manylion tirlunio a phlannu coed ac i ail blannu o fewn cyfnod o 5 mlynedd os oedd planhigyn / coed yn marw.* Ac eithrio'r plannu yn ymwneud gyda'r mesurau lliniaru ar gyfer ehedydd mae'r plannu arall gytunwyd arno sef yr eithin a'r helyg eisoes wedi ei wneud gyda 5 mlynedd wedi mynd heibio ers hynny. Mae'r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg yn nodi fod bwriad i asesu'r tirlunio gan gynnwys yr eithin a'r helyg pob 3 blynedd gyda'r gwaith yn gysylltiedig gyda hynny yn cynnwys materion fel bôn docio ac ail blannu. Erbyn hyn felly nid yw'r amod yma yn un hanfodol ar gyfer y datblygiad ac o osod yr amod i gydymffurfio gyda'r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecoleg byddai hyn hefyd yn cynnwys y manylion o ran gwneud arolwg o'r tirlunio bob 3 blynedd. Ystyrir felly ei bod yn rhesymol erbyn hyn i'r amod yma gael ei thynnu.

5.23 *Amod 16 - Y safle yn cael ei groesi gan ddwy brif bibell cyflenwad dŵr y cyhoedd a cyn cychwyn gwaith angen marcio allan yn gywir eu lleoliad ar y safle ac na chaniateir gweithrediad o fewn 3 medr naill ochr i linell ganol y bibell gyflenwad yn ystod y gwaith.* Fel rhan o gais C15/1368/09/AC cafodd y ddwy brif bibell eu hadnabod ar y safle ac addaswyd peth ar osodiad y paneli solar i gyd-fynd gyda gofynion yr amod yma. Mae lleoliad y prif bibelli wedi eu dangos fel rhan o'r cais presennol ar gynllun 1137/29 ac mae Dŵr Cymru yn fodlon gyda diwygio'r amod os yw'n cydymffurfio gyda'r cynllun yma. Fel y nodwyd wrth ymdrin gydag amod 2

uchod bydd cynllun 1137/29 yn un o'r cynlluniau fydd yn cael ei restru fel cynlluniau i gydymffurfio gyda hwy. Yn ychwanegol gofyn am ddiwygio amod 16 mae'r datblygwr fel ei fod yn tynnu'r rhan oedd angen cydymffurfio gydag o cyn cychwyn gwaith ac i gael amod sydd yn adlewyrchu'r cyfnod gweithredol o'r fferm solar. Byddai'n bosibl diwygio'r amod yma fel nad oes unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda'r datblygiad yn cael ei ganiatáu o fewn 3 medr naill ochr i linell ganol y prif bibelli sydd yn rhedeg trwy'r safle. Ystyrir y byddai'n rhesymol diwygio amod 16 fel yr amlinellir.

5.24 *Amod 17 - Cyn cychwyn gwaith angen cyflwyno a chytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddatganiad dull dylunio adeiladu ac asesiad risg ar gyfer diogelu cyflwr strwythurol y ddwy brif bibell ddŵr strategol sy'n croesi'r safle. Dim datblygiad i gymryd lle hyd nes bod y mesurau diogelu a gymeradwywyd wedi eu gweithredu a'u cwblhau. Y mesurau diogelu gytunir i gael eu cadw yn barhaol drwy gydol oes y cynllun.* Fel rhan o gais C15/1368/09/AC cyflwynwyd a chytunwyd ar ddatganiad dull ac asesiad risg dyddiedig. Mae'r datblygwr am ddiwygio'r amod yma i ddileu'r rhan sydd yn ymwneud gyda'r cyfnod cyn cychwyn gwaith a gosod amod sydd yn cyfeirio at weithredu'r datblygiad yn unol gyda'r datganiad dull ac asesiad risg Rhagfyr 2015 er sicrhau fod y ddwy prif bibell sy'n croesi'r safle yn cael ei ddiogelu. Ystyrir y byddai diwygio'r amod yn y modd yma yn dderbyniol ac yn rhesymol a gwelir nad oes gan Dŵr Cymru wrthwynebiad yn hyn o beth.

## 6. Casgliadau

6.1 Yn unol gyda'r asesiad uchod felly ystyrir ei bod yn dderbyniol i amodau 2, 4, 9, 13, 14, 16 ac 17 o ganiatâd C15/0662/09/LL gael eu diwygio ac nad oes angen bellach am amodau 1, 3, 5, 6, 7, 8, 10, 11,12, 15 ac y gellir tynnu'r amodau hynny osodwyd ar ganiatâd C15/0662/09/LL.

## 7. Argymhelliad:

7.1 **Caniatáu gydag amodau-**

1. Cwblheir y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar gynllun(iau) rhif 1137/28, 1137/30-03, 1137/24, 1137/30-1, 1137/02B, 1137/05, 1137/07 V2, 1137/23/1137/25-2, 1137/29 a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac a gynhwysir yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cais, os nad oes amod(au) sy'n ei diwygio wedi ei gynnwys ar y dyfarniad cynllunio hwn.

2. Dylid gorffen defnyddio'r tir at ddibenion cynhyrchu trydan fel y caniateir yma 35 mlynedd neu'n gynharach o ddyddiad cynhyrchu egni y paneli solar, neu o fewn 6 mis i orffen defnyddio unrhyw baneli solar at ddibenion cynhyrchu trydan (oni bai iddynt gael eu hamnewid o fewn y cyfnod hwnnw) pa un bynnag yw'r cynharaf, ac fe ddylid gwneud hynny yn unol â chynllun gwaith a fydd eisoes wedi ei gyflwyno a'i gytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd hwnnw'n cynnwys rhaglen weithredu. Cwblheir y cynllun gwaith yn unol â'r manylion a gytunir a bydd y rhain yn cynnwys-
   1. Datganiad dull ar gyfer dad-gomisiynu a datgymalu'r holl gyfarpar ar y safle;
   2. Manylion unrhyw eitemau sydd am eu gadael ar y safle;
   3. Datganiad dull ar gyfer adfer y tir i amaethyddiaeth;
   4. Amserlenni ar gyfer digomisiynu, gwaredu ac adfer y tir;
   5. Datganiad dull ar gyfer gwaredu / ailgylchu priodol cyfarpar / strwythurau segur;
   6. Darpariaeth ar gyfer adolygu'r cynllun fel bo angen.

3. Rhaid gweithredu'r Asesiad Risg Bioddiogelwch dyddiedig 9 Rhagfyr 2015 trwy gydol oes y datblygiad, oni bai y cytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

4. Os y bwriedir gosod system oleuo ar y safle ar unrhyw adeg bydd gofyn cyflwyno a chytuno yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol fanylion y system oleuo hynny gan dangos math, union leoliad, lefel goleuedd a'r modd o ddiogelu rhag llygredd neu gorlif golau. Rhaid fydd gosod y system oleuo yn unol gyda'r manylion gytunwyd.

5. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu'n llwyr unol gyda'r Cynllun Rheolaeth Tirwedd ac Ecolegol (v5) dyddiedig 10 Mawrth 2021, Adroddiad Monitro Ehedydd cyf S_MSF_V4 dyddiedig 9 Mawrth 2021 a'r Cynllun Tirlunio rhif 1137/29 drwy gydol oes y datblygiad, oni bai y cytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

6. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad gweithredol gymryd lle yn ystod unrhyw waith yn gysylltiedig gyda'r caniatâd yma o fewn 3 medr naill ochr i linell ganol y pibelli cyflenwad sy'n croesi'r safle.

7. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu mewn cydymffurfiaeth lwyr gyda'r Datganiad Dull Cynllun Adeiladu ac Asesiad Risg gan Corylus dyddiedig Rhagfyr 2015 er diogelu cyflwr strwythurol y ddwy bibell cyflenwad sy'n croesi'r safle. Ni chaniateir cario allan unrhyw ddatblygiad pellach yn gysylltiedig gyda'r caniatâd yma hyd nes y bydd y mesurau diogelu wedi cael eu gweithredu a'u cwblhau.